

ATODIAD A

Canllawiau ar lenwi'r ffurflen gais

1. Cyd-destun

O fewn y sector y Cynghorau Tref a Chymuned (CTC) defnyddir clystyru yn helaeth i ddisgrifio partneriaeth, cydweithio, cydweithredu a datblygu fforymau lleol.

Wrth nodi'r meini prawf ar gyfer cefnogi cyflwyno prosiectau yn 2017-18, rydym wedi ystyried y diddordeb sydd eisoes yn bodoli yn y sector ac ystyried y rhwystrau, a all roi cynghorau mewn sefyllfa i allu ymateb i'r amserlen gymharol fyr ar gyfer y galw am geisiadau, ac i fod yn barod i'w gweithredu'n gyflym pe bai'r cais yn llwyddiannus.

Y gyllideb sydd ar gael yw 20mil, a chaiff cefnogaeth ar gyfer prosiectau unigol ei gapio at 5mil, sy'n golygu ein bod yn rhagweld y byddwn yn cefnogi o leiaf pedair prosiect clwstwr. Bydd cynigion llwyddiannus a gefnogir yn derbyn cyllid mewn dau gam: Rhagfyr 2017 a Mawrth 2018, yn amodol ar gynnydd.

2. Meini Prawf ar gyfer Cymorth

Bydd union natur y clwstwr yn dibynnu ar ba amcanion rydych chi'n bwriadu eu cyflawni; dylai cynghorau sy'n cymryd rhan benderfynu sut i gyflawni'r amcanion ac adlewyrchu hyn yn y ffurflen gais.

Mae'r meini prawf a fydd yn cael eu cymhwyso i geisiadau a dderbynnir erbyn 13 Hydref ar gyfer cymorth i glystyru fel a ganlyn:

- Amcanion gyda'r holl weithgarwch a'r allbynnau cynnar wedi darparu erbyn 31 Mawrth 2018.
- Tystiolaeth o ystyriaeth flaenorol o glystyru a dealltwriaeth o'r hyn a rwystrodd cynnydd.
- Nodi rhwystrau penodol i oresgyn, a ddefnyddir y cyllid i helpu i fynd i'r afael â, er enghraifft: ofn colli hunaniaeth, neu annibyniaeth; gwrthdaro buddiannau; pwysau ar amser cynghorydd a swyddogion; diffyg yr arbenigedd angenrheidiol i ddylunio a gweithredu'r trefniadau. (Efallai y byddwch am ddefnyddio rhwystrau eraill).
- Pwrpasau clir ar gyfer defnydd y cyllid - e.e. i gaffael arbenigedd ychwanegol; i ariannu amser swyddogion ychwanegol; i hwyluso trafodaethau rhwng cynghorau; Nodwch na fydd y costau cyfalaf yn cael eu cefnogi.

ATODIAD A

- Lefel yr adnoddau ac ymrwymiad gan CTCau sy'n cymryd rhan
- Sut bydd y cynnydd yn cael ei fonitro yn ystod cyfnod y prosiect.
- Sut bydd y canlyniadau allbyniau yn cael eu cefnogi y tu hwnt i fis Mawrth 2018.

3. Y ffurflen gais

Cefndir i'r cynnig

Yn yr adran hon, disgrifiwch tystiolaeth o drafodaeth flaenorol neu ymdrechion i glystyru; Beth oedd yn atal cynnydd; sut y nodwyd eich clwstwr; pam dewis clystyru fel ateb?

Amcanion

Rhowch ddadansoddiad o elfennau allweddol y nod; defnyddiwch datganiadau clir a chryno sy'n nodi gofynion a disgwyliadau'r cyllid. Disgrifiwch y 'canlyniad' neu'r 'allbwn' yn hytrach na'r broses, a'r hyn y byddwch yn gallu ei fesur ar ddiwedd y prosiect.

Allbynnau a / neu ganlyniadau

Esboniwch pa bethau diriaethol y byddwch chi'n gallu eu cyfeirio ato; am ganlyniadau esboniwch pa newidiadau fydd yn cael eu hachosi oherwydd y prosiect.

Beth ydych chi'n disgwyl ei gyflawni o weithredu'r cynnig hwn

Er enghraifft, sut fyddwch chi'n sicrhau bod y gwaith a gymrir ymlaen gan ddefnyddio'r arian yn arwain at weithredu pellach / yn y dyfodol?

Pa drefniadau llywodraethu sydd wedi'u cynllunio?

Esboniwch sut y bydd cynghorau unigol yn cymryd rhan; a fydd grŵp llywio yn cael ei sefydlu - sut y penderfynir aelodaeth; pa berthynas fydd ar waith rhwng unrhyw grŵp llywio a'r cynghorau aelod unigol; sut y caiff cynllun y prosiect ei fonitro a'i adrodd arno?

ATODIAD A

Cynllun cyfathrebu

Disgrifiwch sut y byddwch yn rhoadru gwybodaeth a chynnydd ynghylch y cynnig, ac i bwy?

Adnoddau

Nodwch pa fath o gefnogaeth sydd ei angen i gyflawni'r prosiect, gan gynnwys unrhyw ymrwymiad ehangach gan gynghorau sy'n cymryd rhan. Nodwch fath / cyfnod amser yr adnodd; amcangyfrif y gwerth ariannol; cefnogaeth gan gynghorau sy'n cymryd rhan; ac unrhyw gyfraniadau eraill o ffynonellau eraill. Sylwer na fydd costau cyfalaf yn cael eu cefnogi.